

BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



www.gov.wales

Astudiaeth Achos Cynllunio Safle Gradd Bwyd: Castell Howell



Trosolwg

Cwmni cyfanwerthu bwyd yw Castell Howell sy'n cyflenwi ac yn hyrwyddo cynnyrch Cymreig ac yn ymfalchïo mewn creu cadwyni cyflenwi cynaliadwy a theg. Mae'r cwmni yn darparu cig, cynnyrch llaeth, diodydd a bwydydd *gourmet*.

Tyfodd ac esblygodd Castell Howell o ffermio gwartheg ac ieir yn Nhrefechan, Sir Gaerfyrddin, yn y 1970au, i fod yn fusnes sy'n gweithredu ledled Cymru o safleoedd yn Cross Hands, Merthyr Tudful, Avonmouth, y Waun a Blaenau Ffestiniog. Mae'r busnes bellach yn derbyn archebion a chyflenwadau 24 awr y dydd, 6 diwrnod yr wythnos, ac mae wedi tyfu i fod â fflyd o 100 o lorïau cyflenwi a 500 o gyflogeion.

Datblygodd Castell Howell safle prosesu cig newydd ac yn ddiweddar cafodd ganiatâd cynllunio i ehangu ei bencadlys.

Sut y Tyfodd y Cwmni?

Yn flaenorol, bu Castell Howell yn gweithredu o safle ym Mhensarn ger Caerfyrddin. Wrth i'r busnes dyfu, cafodd ei ehangu i gynnwys cyflenwadau a gwasanaethau talu a chario i'r fasnach fwyd. Ym 1999, agorwyd ail ddepo dosbarthu ym Merthyr Tudful, ac wedyn un arall yn Avonmouth yn 2003.



Our new 60,000 square foot, state-of-the-art Hub and Head Office opened in Cross Hands, near Llanelli.

Parhaodd y busnes i dyfu, gan dyfu'n rhy fawr i'w safleoedd, ac yn 2007 agorwyd canolfan ddosbarthu a phrif swyddfa newydd 60,000 o droedfeddi sgwâr ym Mharc Busnes Cross Hands ger Llanelli, ac mae'r busnes bellach yn edrych i ymestyn hwn ymhellach. Yn sgil ehangu pellach, agorwyd canolfannau dosbarthu yn y Waun a Blaenau Ffestiniog yng nogledd Cymru.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu ei frand Celtic Pride hefyd yn tyfu yn ei boblogrwydd. Dechreuodd fel busnes cigydda eidion, ond bellach mae wedi tyfu o ran maint i fod yn prosesu tua 4,500 o wartheg eidion Cymreig y flwyddyn ac yn cyflenwi llawer o gwsmeriaid masnachol.

Roedd angen cyfleuster mwy o faint ac felly datblygwyd safle cigyddiaeth 31,000 o droedfeddi a allai ymdrin â hyd at 80 carcass eidion ar y tro. Prosesu eidion Cymreig a dyfwyd ac a laddwyd yn lleol a wna'r cyfleuster, ac mae'n cyflogi tua 70 o staff. Roedd y cyfleuster cynhyrchu cyfan yn fuddsoddiad mawr o ryw £5 miliwn i Gastell Howell.



Ffermwyr lleol yn archwilio'r cyfleuster cigyddiaeth newydd ym Mharc Busnes Cross Hands

Cynllunio:

Roedd y ddau gais cynllunio yn wahanol iawn, wrth i Gastell Howell wynebu rhywfaint o wrthwynebiad gan drigolion lleol i'r safle cigyddiaeth ond ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i ehangu'r brif swyddfa a'r ganolfan ddisbarthu.

Cyfleuster Cigyddiaeth Newydd

Er bod Parc Busnes Cross Hands wedi'i ddylunio'n benodol i gynnig lle i fusnesau sy'n cyflogi ym maes bwyd, cafwyd gwrthwynebiad yn lleol i'r cais am safle cigyddiaeth, a chymerodd lawer yn hwy i'w brosesu nag a ddisgwyliid gan Gyfarwyddwyr Castell Howell.

Cynhaliodd Castell Howell;

- arolygon sŵn – i ddangos eu bod yn gweithredu oddi mewn i gyfyngiadau derbyniol;
- roedd angen newidiadau i leoliad a lliw'r adeilad, er mwyn bod mor bell i ffwrdd â phosibl o'r trigolion lleol.

Mae hyn yn golygu bod y safle bellach wedi'i ddatblygu'n llawn a bydd angen lleoliad newydd er mwyn ehangu ymhellach, a fyddai o bosibl yn effeithio ar gyflogaeth ar y safle.

Gan fod y safle yn Cross Hands yn barth sydd wedi'i ddynodi gan yr Awdurdod Lleol at ddefnydd busnes bwyd, roedd yr Awdurdod Lleol yn gefnogol i'r cais. Roedd perthnasoedd ers datblygiadau blaenorol yn galluogi i'r gwaith cyn cynllunio dawelu rhai o'r gwrthwynebiadau a wnaed gan drigolion lleol. Mae Castell Howell yn fusnes cymharol lwyddiannus ac felly roedd modd iddynt gael caniatâd a chyflawni eu datblygiadau er y rhwystrau a wynebant. Ond y mae'r Cyfarwyddwyr yn amau y gallai heriau tebyg fod yn rhwystr i fusnesau llai sydd heb gystal adnoddau rhag tyfu.

Oherwydd natur benodol eu cynlluniau cyflogaeth bwyd, ni ymgysylltodd y busnes â'r trigolion lleol ynglŷn â'u cynlluniau. Pan gododd gwrthwynebiadau, teimlai Castell Howell y gallai'r oedi fod wedi'i osgoi petai'r swyddogion cynllunio lleol wedi siarad gyda'r trigolion.

Cyngor: Bu i'r gwrthwynebiadau gynyddu'n sylweddol yr amser a'r costau a oedd angen i gyrraedd caniatâd cynllunio llawn, gan fod ar yr Awdurdod Lleol angen astudiaethau swm, effaith amgylcheddol a lleoliad adeiladau. Gallai fod angen gwaith cyn cynllunio ac ymgynghoriad lleol i nodi'r materion hyn a phan fo'r defnydd o dir cyflogaeth yn glir, gall fod yn ddefnyddiol i swyddogion cynllunio lleol helpu i gyfathrebu â'r gymuned lleol.

Ehangu'r Brif Swyddfa

Dywedwyd bod cael caniatâd i ehangu'r Brif Swyddfa (sydd i'w gweld yn y llun isod) yn gais cynllunio hawdd iawn. *“Roedd yn ymddangos bod y cais cynllunio yn hwylio drwy'r broses heb unrhyw wrthwynebiadau na chymhlethdodau; roedd yn anghredadwy o gymharu â'r hyn yr aethom drwyddo gyda'r adeilad arall.”*

Adeiladwyd pencadlys y busnes yn 2007 a chafodd ei ddylunio o'r cychwyn gan gadw ehangu mewn meddwl. Roedd rhywfaint o gamau 'diogelu at y dyfodol' wedi'u cynnwys yn y cais cynllunio blaenorol ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau nac anawsterau cynllunio.

Yr oedd y datblygiad yn galw am dalu ffi ecolegol untro gymharol fach (£12,000) am fod yr adeilad yn ymyrryd â llwybr hedfan rhywogaeth leol iâr fach yr haf.

Gwersi a Ddysgwyd

Cynllunio i ddiogelu at y dyfodol drwy ystyried datblygu pellach

1. Wrth ymgymryd â datblygiad masnachol, os yw'n bosibl diogelwch yr adeilad at y dyfodol drwy ystyried ehangu a defnydd pellach. Gall hyn helpu'r datblygiad i fod yn fwy hyblyg ac yn gyflymach i'w ddatblygu os oes angen i'r busnes ehangu.

Mynediad cyn cynllunio anffurfiol at Swyddogion Datblygu Cynllunio yr Awdurdod Lleol

2. Gall iaith a phrosesau cynllunio fod yn anodd i rai busnesau eu deall. Gallai fod yn fuddiol i fusnesau bach nad oes ganddynt yr adnoddau i dalu am beirianyddion, syrfewyr a phenseiri gael trafodaeth anffurfiol iawn gyda Chynllunwyr yr Awdurdod Lleol i ddeall yr amser a'r costau posibl sydd eu hangen er mwyn cael caniatâd cynllunio. Gallai busnesau bach wedyn fod yn barod i wneud cynlluniau mwy ffurfiol ynglŷn ag ehangu eu safleoedd busnes, a'u safleoedd cyflogaeth.

Cynllunio fel galluogydd twf economaidd

3. Gall y system gynllunio fod yn alluogydd ac yn sbardun i dyfu yn ogystal ag yn broses dechnegol i sicrhau bod eiddo yn cael ei ddatblygu mewn modd cyfreithlon. Mae'n ddefnyddiol sicrhau bod swyddogion cynllunio yn ystyried a deall dwy ochr y broses, o bosibl drwy hyfforddiant neu gydweithio'n agos â thimau datblygu economaidd a chymdeithasau busnes.